Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru

Rhagfyr 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru

Rhagfyr 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn:



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **9**

Cylch gorchwyl ..... 9

Casglu tystiolaeth ..... 9

**2. Cefndir a hynt y gwaith hyd yma** ..... **10**

**3. Cyllid** ..... **13**

Cynigion a chostau cychwynnol ..... 13

Costau parhaus ..... 16

Cyllid ar gyfer digideiddio ..... 18

Ein barn ni ..... 18

**4. Rhinweddau'r model arfaethedig** ..... **21**

Y weledigaeth ..... 21

Digideiddio ..... 22

Model gwasgaredig ..... 23

Safle angori ..... 25

Ein barn ni ..... 26

Digideiddio ..... 27

Model gwasgaredig ..... 27

Safle angori ..... 27

**5. Gohirio** ..... **29**

Effaith y pandemig ..... 29

Penodiadau staffio ..... 30

Ein barn ni ..... 30

**6. Ymgysylltu a thryloywder ........ 32**

Ein barn ni ........ 33

**7. Brandio a marchnata ........ 33**

Ein barn ni ........ 34

**8. Effaith amgylcheddol ........ 36**

Ein barn ni ........ 36

**Atodiad 1: Tystiolaeth ffurfiol ........ 38**

Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ........ 38

Tystiolaeth ysgrifenedig ........ 38

# Rhagair y Cadeirydd

Ni ellir diystyru gwerth y celfyddydau gweledol i'n cymdeithas, o gefnogi cenedlaethau iau a chenedlaethau'r dyfodol gyda rhaglenni dysgu creadigol i adeiladu economi gryfach drwy greu swyddi a thwristiaeth ddiwylliannol. Yn fwy na hynny, mae tystiolaeth gynyddol yn awgrymu bod gan y celfyddydau rôl werthfawr o ran hybu iechyd a llesiant da. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae llawer o weithiau celf gwych Cymru yn cael eu cadw yn archifau helaeth ein hamgueddfeydd, gyda dim ond ychydig bach ar gael i'r cyhoedd ei weld (yn nodweddiadol, credir mai dim ond tua 5 y cant o'r casgliad sydd ar gael i'w weld ar unrhyw adeg). Bu awydd ers tro i ddarparu mwy o fynediad, a mynediad mwy democrataidd, i'r rhannau hynny o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol sydd ar hyn o bryd allan o olwg y cyhoedd.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru yn tarddu o 2008, gan arwain at astudiaeth ddichonoldeb a gyhoeddwyd yn 2018 ac, yn ddiweddarach, ymrwymiad i fwrw ymlaen â hyn fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae potensial i'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno herio meddwl confensiynol, ac nid oes fawr o amheuaeth y gallent fod yn hynod gyffrous. Mae ein Pwyllgor yn parhau i fod o'r farn, os bydd y cynigion hyn yn cael cyllid a chymorth digonol, y gallent gyflawni'r potensial hwnnw, ond mae'n amlwg bod y cynnydd o ran eu datblygu wedi bod yn araf, ac mae'r cynlluniau sy'n bodoli yn ymddangos yn anghyflawn. Erys cwestiynau ynghylch pa mor uchelgeisiol y bydd y prosiect yn cael bod.

Fel Pwyllgor, rydym yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol heriol y mae Llywodraeth Cymru ynddi, a heb amheuaeth, sylweddol fyddai'r costau ar gyfer sefydlu a rhedeg sefydliad celfyddydau a diwylliant cenedlaethol. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynghylch faint o gymorth refeniw parhaus y bydd ei angen ar yr oriel, neu yn wir faint fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn rhaid llenwi'r bylchau hyn mewn gwybodaeth os am wireddu'r prosiect hwn.

Nid yw'n glir i ni faint o ofod oriel newydd fydd yn cael ei greu o ganlyniad i'r prosiect hwn, sy'n rhwystro ymdrechion i'w ddelweddu fel sefydliad cenedlaethol. Rydym wedi'n cyffroi ynghylch y posibilrwydd o safle angori, ond nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch ei leoliad ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gallai elfen model gwasgaredig y prosiect fod yn ffordd arloesol o ddod â'n casgliadau i'n cymunedau, ond mae ein Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai arwain at golli gofod arddangos i artistiaid lleol. Rhaid gwarchod rhag hyn.

Mae elfennau canmoladwy i'r cynigion hyn: yn enwedig eu maint a'u huchelgais o ran ceisio adeiladu proffil cenedlaethol a rhyngwladol celf gyfoes o Gymru. Rydym hefyd yn cydnabod ac yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddigideiddio a churadu'r casgliad cenedlaethol ar-lein: bydd y platfform digidol newydd, Celf ar y Cyd, yn cynnig llawer o gyfleoedd i arddangos gwaith celf ac artistiaid o Gymru. Dyna'n union pam y byddem yn annog y Llywodraeth i wneud rhagor o waith i ddatblygu cynllun marchnata i gysylltu'r sector twristiaeth a'r platfform digidol byd-eang newydd hwn – mae gwir angen taflu goleuni ar Gymru fel cyrchfan twristiaeth ddiwylliannol.

Mae'r pryderon a godwn yn yr adroddiad hwn yn deillio o'n dymuniad i weld yr ecoleg gelf bresennol yng Nghymru yn cael ei chefnogi, ac nid ei lleihau. Rydym am weld yr oriel yn llwyddo. Yn fwy na hynny, rydym ni fel Pwyllgor am weld sefydliad cenedlaethol newydd sy'n rhoi lle blaenllaw i Gymru ar y llwyfan byd-eang, yn cefnogi artistiaid o Gymru, yn meithrin cydweithio, yn hyrwyddo ein cenedl fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol, ac yn democrateiddio celf o Gymru drwy ei gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Gall y prosiect hwn gyflawni hyn oll: ond bydd angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ac ymrwymiad ynghylch sefydlu'r sefydliad cenedlaethol newydd hwn.

Bydd ein Pwyllgor yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau dros y misoedd nesaf wrth i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn ddatblygu, ac rydym yn parhau'n obeithiol bod modd gwireddu'r addewid o Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru – os caiff y gefnogaeth iawn.

**Delyth Jewell MS**
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amcangyfrif o'r cyllid refeniw parhaus ar gyfer yr Oriel Genedlaethol, ac egluro ai cyllid newydd i'r sector diwylliant fydd hwn, neu'n ailddyrannu cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i gyrff diwylliant eraill. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn am y camau y mae wedi'u cymryd ers 2018 i feintioli'r galw tebygol am yr Oriel Genedlaethol a chyfleoedd refeniw newydd. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn ynghylch asesiad o effaith y cynnig ar raglenni arddangos presennol. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd at y Pwyllgor yn gynnar yn nhymor seneddol haf 2024, gyda diweddariad a chynlluniau manylach. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru egluro faint o ofod oriel newydd net a gaiff ei greu. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn bob chwe mis am hynt y gwaith o gyflawni'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Dylai hyn gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu bodloni ai peidio. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cyfathrebu clir i annog cymorth ac eiriolaeth dros yr Oriel Genedlaethol ar draws y sector. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun clir ar gyfer ehangu ymgysylltiad â'r sector celfyddydau gweledol, gan gynnwys darparwyr sector cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat, i sicrhau bod yr ystod ehangaf o safbwyntiau a phrofiadau'n cael eu hystyrie wrth gynllunio a dylunio'r elfennau sy'n weddill o'r Oriel Genedlaethol. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod y timau brandio a marchnata a'r sector twristiaeth yn gweithio'n agos i alinio cynlluniau ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a sicrhau y cânt eu hymgorffori mewn ymgyrchoedd twristiaeth. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn am y cynlluniau i roi sicrwydd bod yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn amgylcheddol gynaliadwy. ........ Tudalen 37

# 1. Cyflwyniad

## Cylch gorchwyl

**1.** Ymysg pryderon ynghylch model arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, ac oedi o ran cyflawni'r prosiect, gwnaethom benderfyniad i adolygu'r mater hwn.

**2.** Ar 19 Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi'r cylch gorchwyl a ganlyn, sy'n nodi'r meysydd canlynol i'w trafod:

- Cyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol;
- Rhinweddau'r model a gynigir gan Lywodraeth Cymru (8-10 safle rhanbarthol a safle angor);
- Mynediad digidol at gelf gyfoes.

## Casglu tystiolaeth

**3.** Cawsom dystiolaeth ysgrifenedig gan amrywiaeth o randdeiliaid a chynhaliwyd dwy sesiwn tystiolaeth lafar. Ar 5 Gorffennaf 2023, clywsom dystiolaeth gan bartïon buddiant a phartneriaid cyflawni. Ar 14 Medi 2023, clywsom dystiolaeth gan Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ("y Dirprwy Weinidog"). Mae rhestr lawn o gyfranogwyr yr ymchwiliad hwn ar gael yn 0.

**4.** Yn ogystal, hwylusodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Comisiwn y Senedd gyfres o grwpiau ffocws ar ein rhan i gasglu barn academyddion, artistiaid, staff orielau, ac aelodau o elusennau a sefydliadau'r celfyddydau ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru.[1]

**5.** Hoffem ddiolch i'r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i gyfrannu i'r ymchwiliad hwn.

[1] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]

# 2. Cefndir a hynt y gwaith hyd yma

**6.** Mae cynnig presennol Llywodraeth Cymru yn tarddio o 2008, pan gynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru, ac astudiaeth opsiynau ar gyfer Canolfan Genedlaethol Celf Gyfoes. Er na fwrwyd ymlaen ag argymhellion yr astudiaeth honno, cafodd y cynnig ei adfywio yn ystod trafodaethau cyllidebol rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn 2016. Clustnodwyd cyllid cyfalaf i symud y gwaith hwn yn ei flaen rhwng 2017 a 2020.

**7.** Comisiynwyd astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Oriel Gelf Cyfoes Genedlaethol Cymru ("yr Oriel Genedlaethol") ac adroddwyd ar ei chanfyddiadau ym mis Mehefin 2018 ("yr Astudiaeth Ddichonoldeb").[2] Argymhelliad canolog yr Astudiaeth Dichonoldeb oedd:

> *"Yn hytrach na chymeradwyo un adeilad newydd i gadw ac arddangos celf gyfoes, rydym yn argymell model cenedlaethol deinamig ar wasgar sy'n adeiladu ar 6 i 8 lleoliad celfyddydol sy'n bodoli eisoes ac sydd wrthi'n datblygu ledled Cymru, ynghyd â chanolbwynt canolog parhaol".*[3]

**8.** Nodwyd ymrwymiad i ddatblygu'r cynigion ar gyfer yr Oriel Genedlaethol yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Rhagfyr 2021.[4]

**9.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2023,[5] dywedodd Llywodraeth Cymru, ei bod wedi ymrwymo cyfanswm o £1.939m ers 2019-20 i ddatblygu'r Oriel. Roedd hyn yn cynnwys:

- gwaith parhaus i ddigideiddio'r casgliad celf gyfoes sydd gan Amgueddfa Cymru,
- datblygu gwefan sy'n rhoi mynediad cyhoeddus i'r casgliad hwn, a chasgliadau digidol eraill; a

[2] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb – 1 Gorffennaf 2018
[3] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb – 1 Gorffennaf 2018
[4] Llywodraeth Cymru: Y Cytundeb Cydweithio: 2021 – 1 Rhagfyr 2021
[5] Tystiolaeth y Gweinidog: Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft 2023-2024 – 18 Ionawr 2023 [PDF 963KB]

- datblygu cynigion ar gyfer nifer o orielau i fod yn rhan o fodel gwasgaredig yr Oriel Genedlaethol ynghyd â safle angori.

**10.** Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad manylach ac amlinelliad o'r cynigion.[6] Esboniodd mai dyma fydd cydrannau allweddol yr Oriel Genedlaethol:

a. Oriel ar-lein a fydd yn darparu mynediad i'r cyhoedd i 30,000 o ddelweddau o gelf, gyda llawer ohonynt heb eu harddangos yn gyhoeddus o'r blaen.

b. Bydd rhwydwaith o orielau ledled Cymru (mae naw ar y rhestr fer) yn darparu mynediad am ddim i'r casgliad cenedlaethol ac yn dod â chelf gyfoes yn nes at gymunedau.

c. Bydd orielau lletya sy'n lletya'r casgliad cenedlaethol o gelf Cymru. Orielau yw'r rhain sydd eisoes yn rhan o'r seilwaith presennol, neu'n bwriadu bod yn y dyfodol (e.e. y Llyfrgell Genedlaethol neu safle Amgueddfa Cymru yng Nghaerdydd).

d. Oriel angori a fydd yn safle angori ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Mae pum awdurdod lleol ac un sefydliad trydydd sector wedi mynegi diddordeb mewn lletya'r oriel angori.

**11.** Eglurodd Llywodraeth Cymru:

> *"Mae'r casgliad cenedlaethol yn perthyn i bawb yng Nghymru. Bydd y model newydd yn galluogi pobl i edrych ar y casgliad yn eu cymunedau eu hunain, gan hefyd sicrhau bod rhagor o bobl ledled Cymru, y DU a hyd yn oed yn rhyngwladol yn gallu cael gwell cyfleoedd i fwynhau'r casgliad cenedlaethol.* Bydd hyn yn fodd o hybu'r economi ymwelwyr a chefnogi busnesau a swyddi lleol."

**12.** Mae prosiect yr Oriel Genedlaethol yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect. Partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ("y Partneriaid Cyflawni"), gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, sy'n arwain y gwaith o gyflawni elfennau unigol y model. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o benodiadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect: cadeirydd annibynnol i roi arweiniad effeithiol i'r Bwrdd

[6] Llywodraeth Cymru: Llywodraeth Cymru: Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru – 12 Mai 2023

Prosiect; cyfarwyddwr prosiect i arwain ar faterion gweithredol a strategol; a chyfarwyddwr creadigol.[7]

**13.** Bydd y rhestr o orielau sy’n rhan o’r rhwydwaith yn cael ei chwblhau ddiwedd hydref 2023, a bwriedir agor fesul cam tan fis Mawrth 2025 wrth i waith gael ei gwblhau i ddod â’r orielau sy’n cymryd rhan i safonau Cynllun Indemniad y Llywodraeth[8]. Bydd penderfyniadau ynghylch lleoliad a chynlluniau ar gyfer yr oriel angori yn cael eu gwneud yn gynnar yn 2024.[9]

[7] Cyngor Celfyddydau Cymru: Cyfarwyddwr Prosiect and Cadeirydd Annibynnol: Oriel gelf gyfoes genedlaethol Cymru
[8] Cynllun gan y llywodraeth i hwyluso benthyca gwrthrychau er budd y cyhoedd.
[9] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 55

# 3. Cyllid

## Cynigion a chostau cychwynnol

**15.** Mae'r costau cyfalaf rhagarweiniol ar gyfer y cynigion rhwydwaith gwasgaredig (Cam 2) a nodir yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn amrywio o £35 miliwn i £134 miliwn. Mae'r costau cyfalaf rhagarweiniol ar gyfer y safle angori (Cam 2) a nodir yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn amrywio o £40 miliwn i £45 miliwn.[10] Mewn cyd-destun, mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb yn nodi costau cyfalaf prosiectau diwylliannol diweddar eraill:

- V&A Dundee (prosiect sy'n werth £80 miliwn, a ddyluniwyd gan Kengo Kuma),
- Sefydliad Courtauld (Prosiect sy'n werth £50 miliwn, a ddyluniwyd gan Witherford Watson Mann), a
- Factory ym Manceinion (prosiect sy'n werth £110 miliwn, a ddyluniwyd gan OMA/Rem Koolhaas).[11]

**16.** Yn ogystal â hyn, rhagwelwyd mai oddeutu £2.7 miliwn fyddai'r costau refeniw blynyddol parhaus ar gyfer gweithredu'r rhwydwaith gwasgaredig, a rhwng £2.5 miliwn a £15 miliwn ar gyfer y pencadlys cenedlaethol (Cam 3).[12] Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb yn nodi bod y costau gweithredu hyn:

> *"… yn sylweddol uwch na gwariant gweithredu blynyddol cyfartalog y rhan fwyaf o sefydliadau'r celfyddydau gweledol yng Nghymru".*[13]

**17.** Prif ffynhonnell arian cyhoeddus i'r celfyddydau yw Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n dosbarthu tua £30 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £15 miliwn gan y Loteri Genedlaethol bob blwyddyn[14].

---

[10] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[11] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[12] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[13] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[14] Cyngor Celfyddydau Cymru: Adroddiad a Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

**18.** Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb nodi bod cyfanswm dyraniad blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y celfyddydau gweledol a chymhwysol yn llai na'r cynigion yn yr adroddiad.[15] Datgelodd ymgynghoriadau ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb bryder ar draws y sector:

> *"… y byddai unrhyw newydd-ddyfodiad cenedlaethol, sy'n gofyn am gymorth cyfalaf mawr a chymorth refeniw parhaus, yn gallu ansefydlogi ac, ar y gwaethaf, ddinistrio'r ecoleg bresennol sy'n cael ei chyllido'n gyhoeddus".*[16]

**19.** Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb yn gwneud yr argymhellion yn gyntaf am gyllideb comisiynau mawr ar gyfer 50 o weithiau celf newydd.[17] Yn ail, i roi strwythur cyfalaf newydd, neu strwythur lled-barhaol, ar waith mewn 6-8 lleoliad mewn rhwydwaith gwasgaredig o orielau i greu gofod arddangos dros dro ar gyfer y casgliad cenedlaethol.[18] Mae'r amcangyfrifon cyfalaf yn tybio gofod arddangos dros dro ychwanegol yn amrywio o 300 i 1300 metr sgwâr.

**20.** Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb yn rhybuddio nad yw'n bosibl, ar sail y data sydd ar gael, datgan yn hyderus bod tystiolaeth o alw neu ddiffyg galw am gelf gyfoes yng Nghymru. Mae'n dweud, "Nid yw sector y celfyddydau gweledol yn ei gyfanrwydd yn deall ei farchnad bresennol na'i ddarpar farchnad."[19] Argymhellir ymchwil a dadansoddiad pellach o'r farchnad ledled y wlad, "… er mwyn deall yn llawn y gynulleidfa bresennol a darpar gynulleidfa i'r endid cenedlaethol newydd".[20]

**21.** Adroddodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn flaenorol ar yr heriau y mae sector y celfyddydau yn eu hwynebu o ran lleihau ei ddibyniaeth ar arian cyhoeddus:

---

[15] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[16] Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru: Astudiaeth ddichonoldeb ragarweiniol a gwerthusiad opsiynau, tudalen 122
[17] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[18] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[19] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018
[20] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb 1 Gorffennaf 2018

> *"Mae'r anawsterau a wynebir gan y rheini yn y sector celfyddydol wrth geisio codi arian yn amrywiol iawn. Mae maint a lleoliad yn ffactorau allweddol o ran galluogi cynhyrchu cyllid heblaw cyllid cyhoeddus.* Po leiaf yw'r sefydliad, a po bellaf o ganolfan poblogaeth fetropolitan y mae, anhawsaf yw gwireddu'r potensial ar gyfer codi refeniw masnachol, sicrhau cyllid gan fusnesau a gwneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau. Mae anawsterau o'r fath yn helpu i bwysleisio gwerth y cyllid cyhoeddus a roddir i sefydliadau celfyddydol, cyllid sydd wedi lleihau'n sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf."[21]

**22.** Fe wnaethom ni ofyn i'r Dirprwy Weinidog faint a wariwyd ar yr oriel hyd yma. Y swm a fuddsoddwyd hyd yma oedd tua £1.76 miliwn[22], gyda llawer ohono'n cael ei wario ar y prosiect digideiddio. O ran faint fyddai'r Oriel Genedlaethol yn ei gostio, dywedwyd wrthym:

> *"Until a preferred site is identified, it is not possible to identify the level of investment required to support the development, affordability, or operational models for any future anchor gallery."*[23]

**23.** Dywedodd y Partneriaid Cyflenwi wrthym:

> *"Yn 2023-24, y bwriad ydy, fel cyfanswm o ran project funding, felly, yw £1.8 miliwn, wedyn mae'n mynd i £3.8 miliwn a £5.7 miliwn dros dair blynedd. Mae hwnna, dwi'n meddwl, yn bennaf yn adlewyrchu'r anghenion cyfalaf fydd i ddod â'r orielau lan i safon."*[24]

**24.** Pan holwyd Llywodraeth Cymru am yr amcangyfrifon cyfalaf ac a oedd y rhain wedi newid ers yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn 2018, dywedodd wrthym fod y costau ar gyfer y rhwydwaith gwasgaredig gryn dipyn yn llai:

---

[21] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Bumed Senedd: Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau – Mawrth 2018 [PDF 863KB]
[22] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 46
[23] Tystiolaeth y Gweinidog: Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft 2023-2024 – 18 Ionawr 2023 [PDF 963KB]
[24] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 56

> *"Where we are now in terms of Phase 2 for those nine sites is significantly lower than the £35 million. In fact, I'd say you're probably looking at about a quarter of that cost."*

**25.** Gofynnom i'r Dirprwy Weinidog gadarnhau faint o ofod arddangos newydd a fydd yn cael ei greu yn ychwanegol at y gofod sy'n bodoli yn y rhwydwaith o orielau.[25] Dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn dilyn buddsoddiad cyfalaf i gydymffurfio â safonau GIS, mai 2,255 metr sgwâr fydd y gofod a ddarperir ar gyfer yr Oriel Genedlaethol yn orielau'r rhwydwaith. Ni ddywedodd y Dirprwy Weinidog mai man arddangos newydd oedd hwn.[26]

## Costau parhaus

**26.** Gofynnom i'r Dirprwy Weinidog am hyfywedd y prosiect at y dyfodol a'i gostau parhaus.

**27.** O ran hyfywedd y safle angori at y dyfodol, sydd eto i'w ddewis, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> *"… giving any kind of definitive answers on viability in such uncertain financial times is difficult to do. I can only tell you what our commitment to this is, and our commitment is absolute…"*[27]

**28.** Pan ofynnwyd iddi am gymorth refeniw parhaus, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, er na ragwelir y byddai cyllid y llywodraeth yn dod i ben yn gyfan gwbl, fod disgwyl i ddibyniaeth ar gyllid refeniw canolog leihau.[28] Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'r achos busnes ar gyfer y rhwydwaith o orielau drwy amrywiaeth o weithgareddau y bydd y safleoedd yn eu darparu.

**29.** Mynegodd y Partneriaid Cyflenwi bryderon ynghylch ymrwymiad i gyllid refeniw parhaus a'r cyfleoedd ar gyfer mwy o fasnacheiddio:

---

[25] Llythyr at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Oriel celf gyfoes genedlaethol - 22 Medi 2023 [PDF 283KB]
[26] Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Oriel celf gyfoes genedlaethol - 11 Hydref 2023 [PDF 146KB]
[27] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 75
[28] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 71

> *"Consideration needs to be given to the long-term sustainability of any digital contemporary art platform…once the platform is created it will also need an ongoing team dedicated to updating and maintaining the content. Investment can't be limited to the initial set-up phase – it needs to be long-term and sustainable."*[29]

**30.** Ar wahân i hyn, dywedodd Amgueddfa Cymru fod potensial ar gyfer peth ymelwa masnachol. Fodd bynnag, rhybuddiodd na fyddai hynny'n ddigon i wneud yr Oriel Genedlaethol yn ariannol gynaliadwy ynddi'i hun.[30] Dywedodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthym, er bod cyllid cyfalaf ar gael hyd at 2025, yr hoffai gael sicrwydd ynghylch cyllid refeniw parhaus i gynnal yr oriel yn y dyfodol. Rhybuddiodd y bydd gwasanaethau eraill y mae'n eu darparu yn dioddef heb gyllid o'r fath.[31]

**31.** Mewn perthynas â'r oriel, dywedodd Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru wrthym:

> *"This, obviously, is a long-term commitment, so, it's not like project funding. It would have to be something for sustainable funding, and that, obviously, is something that would need to be tackled and very carefully."*[32]

[29] Tystiolaeth Llawryddion Diwylliannol Cymru [PDF 439KB]
[30] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 122
[31] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 111
[32] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 245

## Cyllid ar gyfer digideiddio

**32.** Pan holwyd y Dirprwy Weinidog ynghylch cymorth refeniw parhaus ar gyfer cynnal a chadw Celf ar y Cyd, dywedodd wrthym:

> *"... at this point in time,...we're thinking that the main cost is going to be the initial capital and the rest could possibly be undertaken as part of day-to-day delivery and business as usual."*[33]

**33.** O ran cynnal a chadw parhaus ar gyfer y llwyfan digidol, dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"The funding that we have in place, which has facilitated the digital work and is facilitating the lending model, and the support needed for that, takes us up to 2025. There is a question, as we move forward, as to how we continue to maintain that level of service."*[34]
>
> *"Ac os caf fi ychwanegu hefyd bod modd copïo i lawr ac argraffu llawer, llawer o'n casgliadau digidol ni yn rhad ac am ddim hefyd, felly mae'n anodd gweld potensial cynhyrchu incwm drwy atgynhyrchu eitemau o'n casgliadau cenedlaethol. Mae'n holl feddylfryd ni ar ddarparu gwasanaeth am ddim i'r cyhoedd."*[35]

### Ein barn ni

**34.** Mae'r Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer yr Oriel Genedlaethol yn glir ynghylch faint o gyllid sydd ei angen i weithredu'r argymhellion. Fodd bynnag, yn dilyn ein hadolygiad o'r cyllid ar gyfer prosiect Llywodraeth Cymru, nid ydym yn sicr faint y bydd yn ei gostio – er gwaethaf y ffaith bod rhai elfennau o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru eisoes wedi symud ymlaen. Fel y cyfryw, rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn bod yn ddigon penderfynol i ddarparu cyllid digonol ar gyfer yr oriel.

---

[33] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 188

[34] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 108

[35] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 119

**35.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai'r costau cyfalaf ar gyfer y rhwydwaith o orielau fydd chwarter o'r £35 miliwn a amcangyfrifwyd yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw arwydd o'r costau refeniw parhaus ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect. Ymhellach, ni chawsom unrhyw sicrwydd y byddai costau cyfalaf y safle angori yn cael eu talu.

**36.** Mae costau rhedeg sefydliad celfyddydau a diwylliant "cenedlaethol" yn rhai sylweddol. Er enghraifft, yn 2023-24, £26.9 miliwn oedd cymorth refeniw Llywodraeth Cymru i Amgueddfa Cymru, ac £11.8 miliwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Er ein bod yn deall y cyfyngiadau a'r galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar gyllid cyhoeddus, mae angen eglurder arnom ynghylch costau refeniw parhaus yr Oriel Genedlaethol, a gwybod o ble y daw'r cyllid hwn. Os oes sefydliad cenedlaethol newydd i fod, byddem yn disgwyl cael cyllid newydd cymesur, ac nid cyllid sydd wedi'i ailddyrannu o rannau eraill o gyllidebau diwylliant Llywodraeth Cymru.

**37.** Mae cynaliadwyedd ariannol yr Oriel Genedlaethol yn dibynnu ar fodel o gymorth refeniw cymysg, gyda Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau dibyniaeth ar bwrs y wlad. Ar ôl ystyried cynnig Llywodraeth Cymru, credwn fod angen ymdrin yn ofalus â rhai o'r rhagamcanion ynghylch cynnydd yn y galw a chyfleoedd i gynhyrchu incwm.

**38.** Mae'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd eisoes wedi adrodd ar yr heriau gwirioneddol y mae lleoliadau celfyddydol yn eu hwynebu os ydynt am gynhyrchu mwy o refeniw masnachol. [36] Bydd union natur y model gwasgaredig arfaethedig, sy'n cynnwys sefydliadau celfyddydol llai eu maint ymhell o ganolfannau poblogaeth mawr, yn cyfrannu'n sylweddol at eu hanawsterau o ran codi arian. Nid yw'n ddigon i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Partneriaid Cyflawni feddwl am syniadau ar gyfer cynyddu refeniw masnachol. Mae hefyd angen iddi fod yn fodlon bod unrhyw ragolygon ariannol canlyniadol wedi'u hysbysu'n briodol ac yn gredadwy er mwyn osgoi diffygion cyllid yn y dyfodol.

**39.** Rydym hefyd yn bryderus nad yw'r naill na'r llall o'r argymhellion yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer ehangu'r rhwydwaith o orielau (drwy arddangos gweithiau newydd ac adeiladu gofodau creadigol newydd) yn cael eu dwyn ymlaen. O'r herwydd, rydym yn cwestiynu a yw'r cynnig bellach ar raddfa

[36] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Y Bumed Senedd: Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau – Mawrth 2018 [PDF 863KB]

sy'n gallu denu'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, busnes newydd, a chymorth refeniw y byddai ei angen i leihau'n sylweddol y ddibyniaeth ar bwrs y wlad.

**40.** Er y bydd cynnig Llywodraeth Cymru yn creu mwy o ofod i arddangos y casgliad cenedlaethol, ymddengys mai ychydig iawn o gynnydd fydd yn ôl troed yr orielau yn y rhwydwaith gwasgaredig. Felly, bydd gofod oriel sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio i arddangos gwaith celf gyfoes yn rhad ac am ddim yn cael ei neilltuo i arddangos y casgliad cenedlaethol. Rydym yn pryderu y gallai hyn fod yn andwyol i raglenni curadurol presennol, a cholli cyfle i artistiaid cyfredol o Gymru a allai gael eu hatal rhag dangos eu gwaith.

**41.** Heb ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru i gynnydd net sylweddol mewn gofod orielau, a sicrwydd ynghylch ffynhonnell a lefel y cyllid refeniw parhaus, mae cwestiynau o hyd ynghylch hygrededd y prosiect hwn fel sefydliad cenedlaethol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi amcangyfrif o'r cyllid refeniw parhaus ar gyfer yr Oriel Genedlaethol, ac egluro ai cyllid newydd i'r sector diwylliant fydd hwn, neu'n ailddyrannu cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i gyrff diwylliant eraill.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn am y camau y mae wedi'u cymryd ers 2018 i feintioli'r galw tebygol am yr Oriel Genedlaethol a chyfleoedd refeniw newydd.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn ynghylch asesiad o effaith y cynnig ar raglenni arddangos presennol.

# 4. Rhinweddau'r model arfaethedig

## Y weledigaeth

**42.** Amlinellodd yr Astudiaeth Ddichonoldeb y weledigaeth a ganlyn ar gyfer yr Oriel Genedlaethol:

> *"Byddai ei hegwyddorion yn golygu creu rhwydweithiau cynaliadwy a gwydn ar bob lefel yn ecoleg y celfyddydau. Byddai'n anelu at wneud celf gyfoes Gymreig yn eiconig, ynghyd â'r tirluniau, y bobl a'r diwylliant sy'n ei hysbrydoli. Mae'n gofyn am fuddsoddiad cychwynnol gan y sector cyhoeddus, ond mae ganddo'r potensial i greu modelau busnes newydd.*
>
> *Yn ogystal, byddai oriel newydd yn meithrin artistiaid trwy gydol eu gyrfaoedd a chyfranogwyr a chynulleidfaoedd hwythau trwy gydol eu hoes. Y nod fyddai ymgorffori'r celfyddydau mewn addysg, iechyd, y diwydiannau creadigol ac economi twristiaeth, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan ysbrydoledig ym mhob cam o fywydau pobl. Drwy adeiladu ar asedau sy'n bodoli eisoes, a neidio dros fodelau cyfredol yn ymwneud ag adeiladu orielau, gallai Cymru ddod yn arweinydd byd-eang mewn dinasyddiaeth greadigol, gan fynd i'r afael â'i huchelgeisiau diwylliannol pennaf yn ogystal â'i hymrwymiad i gymdeithas fwy cynaliadwy, cyfiawn a chynhwysol."*[37]

**43.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog mewn tystiolaeth ysgrifenedig wrthym y byddai'r oriel yn sicrhau y gall pawb yng Nghymru fwynhau'r casgliadau cenedlaethol o gelf gyfoes. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r oriel yn creu ymdeimlad newydd o berchnogaeth gyda'r sector celf, ac yn caniatáu ffordd wirioneddol ddemocrataidd o weithio gydag orielau lleol i wneud penderfyniadau am waith sy'n berthnasol i'w cymunedau lleol. Dywedodd y byddai'r oriel yn dod yn adnabyddus ar unwaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ynghyd â'r tirluniau, y bobl a'r diwylliant sy'n ei hysbrydoli.[38]

[37] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb – 1 Gorffennaf 2018
[38] Tystiolaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 100KB]

## Digideiddio

**44.** Roedd consensws ymhlith tystion fod y prosiect digido a lansio'r llwyfan digidol, Celf ar y Cyd, yn gyflawniad arwyddocaol, ac yn elfen bwysig o'r Oriel Genedlaethol. Clywsom am sut mae'r wefan yn darparu:

- mynediad i'r casgliad cenedlaethol, gan gynnwys llawer o eitemau nad ydynt erioed wedi cael eu harddangos yn gyhoeddus o'r blaen;
- llwyfan rhyngwladol i gelf o Gymru;
- cyfleoedd i ddysgu mwy drwy ei rhaglen dysgu digidol ac adnoddau hyblyg i addysgwyr;
- ffenestr siop ar gyfer y rhwydwaith o orielau wrth chwilio am weithiau i'w harddangos.

**45.** Dywedodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws wrthym:

> *"Mae ochr ryngweithiol a throchi mynediad digidol at gelf gyfoes yn gyffrous iawn."*
>
> *"Mae'r oriel ddigidol yn hollol wych. Mae'n syniad gwych."*
>
> *"Mae'n ffordd ddemocrataidd o rannu'r gwaith a byddai'n cynyddu ei welededd."*
>
> *"… does dim ots lle yn y byd wyt ti, ti'n gallu gweld celf o Gymru."*
>
> *"Mae mynediad digidol yn bwysig iawn o safbwynt addysgu ac ymchwil, mae cael un gronfa ddata ganolog, safonol gyda delweddau a gwybodaeth gatalogio yn werthfawr iawn."*[39]

**46.** Siaradodd rhai rhanddeiliaid a chyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws am heriau tlodi digidol o ran cyfyngu ar fynediad i'r casgliad digidol, a'r angen i fod yn yr un ystafell â'r gwaith celf er mwyn ei werthfawrogi'n llawn. Dywedodd un o gyfranogwyr y grwpiau ffocws:

[39] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]

> *"Rydyn ni i gyd mor gyfarwydd ag eistedd o flaen sgrin a chael gafael ar unrhyw beth yn y byd, ond mae mynd i mewn i ofod corfforol a'r gwaith o flaen ein llygaid yn brofiad hollol wahanol."*[40]

## Model gwasgaredig

**47.** Cawsom dystiolaeth mewn perthynas â chryfderau a gwendidau model gwasgaredig arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Oriel Genedlaethol.

**48.** Roedd tystion a nifer o gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru. Teimlai llawer fod y model gwasgaredig yn cynnig llawer o gyfleoedd a manteision. Roedd y rhain yn cynnwys:

- arddangos rhywbeth arloesol ac unigryw;
- galluogi pobl Cymru i gael mynediad at y casgliad cenedlaethol;
- y potensial i gefnogi a hyrwyddo artistiaid byw o Gymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;
- y cyfle i orielau ddatblygu drwy rannu gwybodaeth, syniadau a phrofiad;
- y potensial i ysgogi twristiaeth a buddsoddiad mewn ardaloedd lleol;
- effaith fuddiol celf a gweithgareddau celf ar iechyd a llesiant unigolion a chymunedau lleol;
- y potensial i bartneriaethau ag ysgolion lleol feithrin diddordebau creadigol; a
- chefnogi ôl troed carbon is drwy bellteroedd teithio llai.

**49.** Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym fod cynnig Llywodraeth Cymru yn cynnig model gwych ac na ddylai pobl orfod teithio pedair i bum awr i weld y casgliad yng Nghaerdydd.[41] Dywedodd Llawryddion Celfyddydol Cymru fod y model yn cynnig cyfle cyffrous i ymwreiddio dull strategol newydd, teg a chynhwysol o weithio gyda llawryddion diwylliannol.[42]

---

[40] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[41] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 68
[42] Tystiolaeth Llawryddion Celfyddydol Cymru [PDF 439KB]

**50.** Teimlai rhai o gyfranogwyr y grwpiau ffocws mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y prosesau presennol a'r model newydd sy'n cael ei gynnig. Awgrymodd un cyfranogwr nad model newydd yw hwn, mae'n fodel sydd eisoes wedi'i hen sefydlu mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddisgrifio fel 'oriel' fel arfer.[43] Dywedodd cyfranogwr arall:

> *"Un peth sy'n ddiddorol iawn yn fy marn i yw bod y model Cymreig hwn yn cael ei ddisgrifio fel yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol…. Yn syml, mae'n fodel o ledaenu casgliadau yn fwy effeithiol ledled gwlad."*[44]

**51.** Pan holwyd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru am wendidau posibl yn y model, mynegodd bryderon ynghylch lledaeniad daearyddol y rhwydwaith gwasgaredig:

> *"The weaknesses I would pick up on, though, are I think whether or not the network is large enough—geographically, could we have a few other venues involved … rather than these, if you like, groupings, which are to do with where galleries are at the moment and who are clients of the arts council. It may be that we need to look at a few more."*[45]

**52.** Awgrymodd rhai cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws y byddai'n heriol sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth da neu hyd yn oed digonol rhwng y gwahanol orielau.[46]

**53.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod gan y model arfaethedig yr hyblygrwydd i fynd ar raddfa uwch neu raddfa is, a chau bylchau fel bod potensial i gynyddu mynediad daearyddol drwy ehangu'r rhwydwaith yn y dyfodol.[47]

**54.** Cydnabu rhanddeiliaid na fyddai'r Oriel Genedlaethol yn cynnig mynediad sylweddol i gasgliad hanesyddol y genedl o waith celf Cymreig, er bod hyblygrwydd curadurol i orielau arddangos darnau hanesyddol o berthnasedd cyfoes. Dywedodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

---

[43] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[44] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[45] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 68
[46] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[47] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 26

> *"dydy o ddim yn sefydlu oriel gelf genedlaethol sydd yn cynnwys celf gyfoes hefyd. Yn ddelfrydol, dyna beth y byddem ni wedi ei weld: oriel genedlaethol sydd yn llwyfan i gelf gyfoes, ond sydd hefyd yn llwyfan i'n celf hanesyddol hynod, hynod bwysig a safonol ni."*[48]

## Safle angori

**55.** Rydym hefyd wedi adolygu rhinweddau cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer safle angori i gefnogi'r rhwydwaith gwasgaredig o orielau.

**56.** Mynegodd y cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws bryderon am y datblygiadau diweddar ynghylch y safle angori. Clywsom am yr angen am eglurder ynghylch diben y safle angori, ac am y diffyg gwybodaeth am y 'llinyn' hwn o'r prosiect. Tynnodd rhai o'r cyfranogwyr sylw at y defnydd anghyson o derminoleg gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd y disgrifiwyd y safle angori fel adeilad blaenllaw a safle angori, sy'n ddau syniad gwahanol iawn.[49]

**57.** Fe wnaeth tystion eraill nodi'r angen am eglurder i ni. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru wrthym:

> *"... Dydw i'n dal ddim yn glir sut bydd yr angor yn gweithio – a fuasai hi'n oriel bwrpasol, yn ychwanegiad ynteu'n ganolfan weinyddol. Ac, wrth i mi siarad â gwahanol bobl, mae pobl wedi dod yn ôl gydag ymatebion gwahanol."*[50]

**58.** Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws yn cwestiynu'r angen am safle angori, gan ddweud yn hytrach bod yn well ganddynt fuddsoddi mewn asedau presennol o ystyried yr anawsterau ariannol a wynebir gan sefydliadau celfyddydol. Ychydig iawn o gyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws a oedd o blaid cael y casgliad cenedlaethol mewn un adeilad. Dywedodd un cyfranogwr:

---

[48] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 25
[49] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[50] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]

> *"Yn bersonol, mae'n teimlo fel ychydig o esgus i fod yn onest... mae gwir angen oriel celf gyfoes arnom mewn un adeilad, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wneud hynny!"*[51]

**59.** Pan holwyd y Dirprwy Weinidog am y meini prawf ar gyfer dewis y safle angori, dywedodd:

> *“What we have done is we've set out the high-level policy, and the high-level direction. We've made it very clear that the delivery partners for this are the National Museum and the National Library and the Arts Council of Wales. And they will be the ones that will develop the detail around this.”*[52]

**60.** Yn wahanol i sylwadau’r Dirprwy Weinidog, dywedodd y Partneriaid Cyflenwi wrthym fod safle Angori yn dod y tu allan i gwmpas y gwaith y gofynnwyd iddynt ei wneud gan fod y rhan honno o’r prosiect yn cael ei harwain yn uniongyrchol gan y Llywodraeth.[53]

## Ein barn ni

**61.** O'r dystiolaeth a ystyriwyd gennym, mae'n amlwg bod rhinweddau i agweddau ar y prosiect. Yn benodol, mae cefnogaeth wresog i'r platfform digidol ar y cyfan.

**62.** Ar y llaw arall, nid oedd pawb yn cytuno â model arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Oriel Genedlaethol. Er enghraifft, clywsom am ddiffyg eglurder ynghylch elfennau o’r model gwasgaredig ac nid oedd pawb wedi’u perswadio ei fod yn cynnig unrhyw beth arloesol neu newydd.

**63.** Rydym yn trafod ein sylwadau ar agweddau unigol ar y prosiect yng ngweddill y bennod hon.

---

[51] Canfyddiadau’r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[52] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 142
[53] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 96

## Digideiddio

**64.** Rydym yn cymeradwyo'r cynnydd a wnaed o ran digideiddio'r casgliad cenedlaethol a lansiad llwyddiannus gwefan Celf ar y Cyd ym mis Mehefin 2023. Mae'r gallu i bori drwy oddeutu 30,000 o ddelweddau newydd a gweld gweithiau sydd mor fregus a sensitif fel nad ydynt erioed wedi bod yn cael eu harddangos yn gyhoeddus yn gyflawniad sylweddol.

**65.** Fodd bynnag, mae gan y platfform digidol ei gyfyngiadau hefyd. Yn ein barn ni, nid oes dim gwell na gallu gweld gweithiau celf yn y cnawd. Nid yw'r profiad o weld darnau ar-lein yr un peth â gweld y darnau eich hun. Ymhellach, nid yw'r platfform yn rhoi llawer o fudd i leiafrif sylweddol yng Nghymru sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Felly, er bod gwefan Celf ar y Cyd yn adnodd sylweddol a phwysig, dylid ei weld fel un elfen i sicrhau hygyrchedd y casgliad cenedlaethol, ac nid yr ateb iddo.

## Model gwasgaredig

**66.** Mae gwahaniaeth barn ymhlith y Pwyllgor ar rinweddau model arfaethedig yr Oriel Genedlaethol. Mae rhai Aelodau o'r farn bod potensial i elfennau cyfunol y cynnig, os cânt eu gwireddu'n llawn, greu sefydliad blaengar a fydd yn gwella'r arlwy ddiwylliannol ledled Cymru.

**67.** Fodd bynnag, mae rhai Aelodau'n teimlo bod y cynnig yn gyfyngedig o ran ei gwmpas a'i uchelgais. Er eu bod cydnabod rhinweddau cynnig a fydd yn cynyddu mynediad lleol i'r casgliad cenedlaethol, ni fydd hyn yn creu brand cenedlaethol.

## Safle angori

**68.** Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio gwahanol elfennau hyblyg o fodel yr Oriel Genedlaethol, ac mae'r achosion busnes manwl a'r cynlluniau ategol yn dal i gael eu datblygu. Fel Pwyllgor, nid oes gennym ddigon o wybodaeth eto i ffurfio barn gonsensws ar rinweddau'r model arfaethedig, cyn i Lywodraeth Cymru lunio cynllun manylach. Fodd bynnag, rydym yn cytuno bod y model arfaethedig yn well fel cyfanswm ei gydrannau, gyda phob un o'r pedair elfen yn ategu ac yn cefnogi'r lleill. Rydym yn pryderu, heb ymrwymiad cadarn i gyllid cyfalaf ar gyfer safle angori priodol, y caiff y cynnig ei wanhau'n sylweddol.

**69.** Byddwn felly'n cadw llygad ar ddatblygiadau ac yn dychwelyd at gynnig Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn newydd pan fydd yr achosion busnes wedi'u cyflwyno a phan fydd darlun ariannol mwy cyflawn yn hysbys.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd at y Pwyllgor yn gynnar yn nhymor seneddol haf 2024, gyda diweddariad a chynlluniau manylach. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru egluro faint o ofod oriel newydd net a gaiff ei greu.

# 5. Gohirio

**70.** Argymhellodd yr Astudiaeth Ddichonoldeb y dylai Panel Cynghori Llywodraeth Cymru benodi cyfarwyddwr cydweithredol i ddatblygu'r cysyniad a'i yrru yn ei flaen.[54]

**71.** Clywsom bryderon gan randdeiliaid a chyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws am y diffyg cynnydd a gwybodaeth am yr amserlenni a ragwelir ar gyfer cwblhau'r prosiect. Roedd rhai yn falch ei bod yn ymddangos bod y cynlluniau ar gyfer yr Oriel Genedlaethol wedi ennill momentwm yn ystod y misoedd diwethaf.

**72.** Dywedodd Cymdeithas Celfyddydau Cyfoes Cymru wrthym fod y prosiect wedi bod ar y gweill ers amser maith, a bod yr amserlenni dan sylw yn aneglur o hyd. Roedd Visual Arts Group Wales yn cytuno, gan nodi ei bod wedi cymryd amser hir iawn i lunio'r amserlen. Fodd bynnag, dywedodd wrthym fod y cynnydd diweddar yn gyffrous iawn.[55]

**73.** Dywedodd y Partneriaid Cyflenwi, er bod llawer o waith wedi'i wneud, bod llawer i'w wneud o hyd. Ychwanegodd:

> *"… yn dilyn gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog, rŷn ni hefyd wedi adnabod, dros y ddwy flynedd nesaf, beth sydd angen ei wneud o ran agenda gwaith. Mae yna dargedau pendant iddo fe…* Rŷn ni'n cryfhau y grŵp prosiect o ran craffu ac o ran rheoleiddio."[56]

## Effaith y pandemig

**74.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru y cafodd llawer o'r gwaith ar yr Oriel Genedlaethol ei gwtogi yn ystod y pandemig, gyda'r ffocws yn symud i gefnogi'r sectorau.

**75.** Cydnabu'r Partneriaid Cyflenwi y bu gohirio, yn bennaf oherwydd y pandemig Covid-19. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod newidiadau mewn arweinyddiaeth yn Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn ffactor

[54] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb – 1 Gorffennaf 2018
[55] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 235
[56] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 48

cyfrannol. Dywedodd y Partneriaid Cyflenwi wrthym y gallent fod wedi cynnal yr archwiliadau GIS ar gyfer y gwahanol orielau yn gynt, ond mai dyma'r unig waith a oedd ar ei hôl hi ar hyn o bryd.[57]

## Penodiadau staffio

**76.** Fe wnaethom ni ofyn i'r Dirprwy Weinidog pam y cymerodd bum mlynedd i hysbysebu am gyfarwyddwr prosiect a chadeirydd annibynnol i arwain y Bwrdd Prosiect. Dywedodd mai dim ond eleni y gwnaed y penderfyniad i benodi cadeirydd annibynnol.

**77.** Yn ogystal, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> "… one of the delivery partners, the Arts Council of Wales, did come to us and say that they felt that, in addition to an independent chair, they needed a project director. That was a decision that was taken relatively recently as well, and that person has only recently been appointed."[58]

**78.** Dywedodd Llywodraeth Cymru, wrth sôn am yr ychydig wythnosau ers i'r cyfarwyddwr prosiect a'r cyfarwyddwr creadigol fod yn eu rolau, eu bod yn rhoi lefel wahanol o fomentwm a bod mawr angen hyn.[59]

### Ein barn ni

**79.** Er bod y cynlluniau ar gyfer yr Oriel Genedlaethol yn cael eu datblygu o hyd, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru bellach yn gwneud cynnydd cadarnhaol gyda'i chynlluniau a'i threfniadau cyflawni. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu'r model gwasgaredig a rhoi'r strwythurau angenrheidiol ar waith i symud y prosiect yn ei flaen.

**80.** Wedi dweud hynny, rydym yn parhau i bryderu am arafwch y cynnydd hyd yma a'r diffyg cynllun prosiect manwl o ganlyniad yn amlinellu amserlenni, blaenoriaethau a chyflawniadau allweddol. Mae hyn yn rhywbeth y byddem yn

[57] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 48
[58] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 49
[59] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 50

disgwyl ei weld gydag unrhyw brosiect, ac mae hyn yn fwy perthnasol fyth yn achos prosiect o'r fath raddfa ac uchelgais.

**81.** Er ein bod yn llwyr ddeall effaith y pandemig Covid-19, nid ydym yn fodlon bod hyn yn cyfrif yn llawn am arafwch y cynnydd o ran cyflawni'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol hyd yma. Er enghraifft, dywedodd y Partneriaid Cyflenwi wrthym fod gohirio gyda'r gwaith GIS sydd ei angen ar gyfer yr orielau, a hynny , oherwydd diffyg ysgogiad ar eu rhan. Cafwyd enghreifftiau eraill o ohirio yn rhannol o ganlyniad i swyddi gwag mewn rolau arwain allweddol.

**82.** Er hyn oll, ni ddywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y bu unrhyw anawsterau. Ni cheisiodd ychwaith ymyrryd yn gynharach i wneud gwelliannau (megis nodi'r angen am gyfarwyddwr, fel y nodwyd yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb). Nid yw hyn oll gyda'i gilydd yn rhoi sicrwydd inni fod y cyfrifoldeb am arwain a goruchwylio prosiect cyffredinol yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn cael digon o flaenoriaeth. Mawr obeithiwn y bydd penodiad diweddar cadeirydd annibynnol yn gwella pethau ar fyrder.

**83.** Er mwyn sicrhau bod y cynnydd o ran cyflawni'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn cael ei gadw ar y trywydd iawn, byddem yn croesawu diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru am hyn.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn bob chwe mis am hynt y gwaith o gyflawni'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Dylai hyn gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu bodloni ai peidio.

# 6. Ymgysylltu a thryloywder

**84.** Cafodd yr Astudiaeth Ddichonoldeb ei llywio gan ymarfer ymgynghori, a'i llywio gan amrywiaeth o gyfweliadau a gweithdai â rhanddeiliaid. Roedd yn argymell sefydlu Panel Cynghori yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid i gyd-ddatblygu'r weledigaeth, y cysyniad a'r modelau ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.[60]

**85.** Mewn cyferbyniad, dywedodd rhai rhanddeiliaid a chyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws wrthym na fu ganddynt ran yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau presennol ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.  Dywedodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru wrthym:

> *"... as an organisation, we've had absolutely no contact with anybody about this until we were invited along to this meeting...,the museums would have liked to have been more engaged ..."*[61]

**86.** Dywedodd un o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws:

> *"Mae artistiaid yn teimlo nad ydyn nhw'n rhan o'r trafodaethau. I fod yn onest, mae'r orielau wedi teimlo nad ydyn nhw'n rhan o'r drafodaeth ers cryn amser hefyd."*[62]

**87.** Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws sydd â phrofiad o'r broses ei bod yn fwy 'o'r brig i lawr' nag yr oeddent wedi'i obeithio.

**88.** Hefyd, soniodd Cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws am eu pryder ynghylch diffyg gwybodaeth am y cynlluniau ar gyfer yr Oriel Genedlaethol. Dywedodd un cyfranogwr wrthym:

> *"Byddai rhagor o wybodaeth yn ddefnyddiol. Mae'n rhaid i ni ddyfalu, bron â gobeithio beth allai hyn fod."*[63]

---

[60] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb – 1 Gorffennaf 2018
[61] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 227
[62] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[63] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]

## Ein barn ni

**89.** Cafodd yr argymhellion cychwynnol a wnaed yn yr Astudiaeth Ddichonoldeb yn 2018 eu llywio gan waith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth. Fodd bynnag, mae'r model presennol a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn sylweddol wahanol mewn nifer o agweddau. Er enghraifft, nid oes cyllideb gomisiynu ar gyfer 50 o weithiau celf cyntaf ledled y wlad i greu 'Cynfas Cenedlaethol'. Ni fydd strwythurau cyfalaf newydd ychwaith yn cael eu rhoi ar waith ym mhob lleoliad yn y rhwydwaith gwasgaredig i ymestyn yr arlwy twristiaeth ddiwylliannol. Felly, rydym yn pryderu ynghylch y dystiolaeth nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth yn ystod y camau ffurfiannol o ddatblygu a dylunio'r cynigion presennol. Rydym hefyd yn pryderu am gyfathrebu gwael ynghylch y cynlluniau a'r diffyg tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

**90.** Mae'n ymddangos i ni mai dim ond lleisiau'r rhanddeiliaid hynny sydd â budd uniongyrchol yn y cynnig presennol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u clywed. O ganlyniad, mae perygl nad yw penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Oriel Genedlaethol yn cael eu gwneud er lles gorau'r gymuned celfyddydau gweledol ehangach, nac er y budd cenedlaethol. Yn ein barn ni, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n ystyrlon ag ystod eang o randdeiliaid a sicrhau eu bod yn gallu llywio'r agweddau sy'n weddill ar yr Oriel Genedlaethol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cyfathrebu clir i annog cymorth ac eiriolaeth dros yr Oriel Genedlaethol ar draws y sector.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun clir ar gyfer ehangu ymgysylltiad â'r sector celfyddydau gweledol, gan gynnwys darparwyr sector cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat, i sicrhau bod yr ystod ehangaf o safbwyntiau a phrofiadau'n cael eu hystyried wrth gynllunio a dylunio'r elfennau sy'n weddill o'r Oriel Genedlaethol.

# 7. Brandio a marchnata

**91.** Nododd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd brandio adnabyddadwy ar draws y lleoliadau i lwyddiant prosiect yr Oriel Genedlaethol.

**92.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, yn debyg iawn i Amgueddfa Cymru, ei bod yn bwysig cael brand y bydd pobl yn ei adnabod fel rhan o'r oriel celf

gyfoes genedlaethol. Dywedodd bod hyn yn fwy na dim ond arwyddion, ond hefyd yr olwg, y teimlad, a’r hyn sy’n cael ei arddangos.[64]

**93.** Dywedodd Visual Arts Group Wales ei bod yn wendid posibl peidio â gorfodi brand yr Oriel Genedlaethol yn ddigonol ar draws y lleoliadau, a bod angen cynllunio hyn yn ofalus i gyd-fynd â'r brandio presennol ar gyfer pob un o'r lleoliadau yn y rhwydwaith gwasgaredig.[65]

**94.** Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws am yr her i bob lleoliad o dan sylw gadw eu hunaniaeth eu hunain fel safleoedd unigol, yn ogystal â bod yn rhan o'r Oriel Genedlaethol. Soniodd cyfranogwyr eraill am yr her i'r Oriel Genedlaethol gael ei hunaniaeth glir a chyson ei hun, fel bod pobl yn deall beth mae'r oriel ei hun yn ei olygu. Awgrymodd y cyfranogwyr y bydd yn heriol sicrhau bod y prosiect yn cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd ac ni ddylid ystyried lleoliadau fel 'llinynnau' ar wahân.[66]

**95.** Nododd yr Astudiaeth Ddichonoldeb nad oedd digon o ddeunyddiau twristiaeth yn hyrwyddo celf gyfoes Gymreig a bod hyn yn debygol o gael effaith ar niferoedd yr ymwelwyr a mathau o ymwelwyr. Ymhellach, roedd “…diffyg aliniad trawiadol iawn…” rhwng twristiaeth ddiwylliannol ac ymgyrchoedd brandio a marchnata Croeso Cymru.[67]

## Ein barn ni

**96.** Rydym yn cytuno bod angen hunaniaeth frand gydlynol ac unigryw y gall lleoliadau’r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a’i hymwelwyr uniaethu â hi. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod hefyd angen pwyslais pendant ar ymgyrchoedd marchnata a thwristiaeth (sy'n hyrwyddo ac yn “lleoli” y celfyddydau) i ddenu mwy o ymwelwyr. Yn ein barn ni, mae angen i'r timau brandio a marchnata ymwneud â'r sector twristiaeth yn gynnar er mwyn sicrhau bod dull gweithredu integredig, yn ogystal â datblygu hunaniaeth gref i frand yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Byddem yn croesawu mwy o wybodaeth mewn perthynas â’r cynlluniau sy'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â hyn pan fyddant ar gael.

[64] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 14 Medi 2023, paragraff 166
[65] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 250
[66] Canfyddiadau’r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[67] Llywodraeth Cymru: Oriel celf gyfoes genedlaethol Cymru: astudiaeth ddichonoldeb – 1 Gorffennaf 2018

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod y timau brandio a marchnata a’r sector twristiaeth yn gweithio’n agos i alinio cynlluniau ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a sicrhau y cânt eu hymgorffori mewn ymgyrchoedd twristiaeth.

# 8. Effaith amgylcheddol

**97.** Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at effaith amgylcheddol bosibl casgliadau teithiol ledled Cymru. Dywedodd Llawryddion Celfyddydol Cymru wrthym:

> *"… in the face of the climate crisis, environmental impact will be a critical consideration. The dispersed model will require transporting artworks across the country, which is a significant environmental cost. The environmental impact should be carefully considered and informed by expert advice before any decisions are made to ensure that the cultural and social benefits are not pursued at the expense of the environment."*[68]

**98.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws am faterion cludo'r casgliad cenedlaethol i leoliadau ledled Cymru a chodi pryderon am ôl troed carbon.[69]

**99.** Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"Perhaps one of the questions—and I wouldn't say it's a weakness; it's a challenge for us—is about the sustainability, in terms of us moving collections to different parts of the country and how we manage that in a way so that we do minimise our carbon footprint. So, we are looking into that and looking at things. They sound basic, but they're important—about sustainable packaging materials, looking at the types of vehicles. So, I think that is a challenge, and that's something we are grappling with."*[70]

## Ein barn ni

**100.** Rydym yn rhannu'r pryderon a glywsom am effaith amgylcheddol bosibl yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Rydym yn glir bod gan yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol y potensial i wella gwead cymdeithasol a diwylliannol Cymru, ond yn llai felly sut y bydd yr oriel yn gwella llesiant amgylcheddol y genedl. Byddai'n

[68] Tystiolaeth Llawryddion Diwylliannol Cymru [PDF 439KB]
[69] Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Oriel celf gyfoes genedlaethol [PDF 483KB]
[70] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 5 Gorffennaf 2023, paragraff 83

gwbl anghywir pe bai'r enillion a ragwelir yn sgil llai o deithio gan ymwelwyr yn sgil y model gwasgaredig yn cael eu gwrthbwyso'n sylweddol gan yr angen i gludo'r casgliad cenedlaethol o amgylch y wlad. O ystyried y ddyletswydd datblygu cynaliadwy a osodwyd ar y Partneriaid Cyflawni (fel cyrff a ariennir yn gyhoeddus) gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y cynlluniau sy'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â hyn pan fyddant ar gael.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn am y cynlluniau i roi sicrwydd bod yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn amgylcheddol gynaliadwy.

# Atodiad 1: Tystiolaeth ffurfiol

## Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **5 Gorffennaf 2023** | **Dafydd Rhys, Prif Weithredwr,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Dr Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Chris Delany, Swyddog Datblygu,**<br>Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru<br>**Alfredo Cramerotti, Cyd-Gadeirydd,**<br>Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru<br>**Dr Sandra Harding, Cadeirydd,**<br>Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru (CASW) |
| **14 Medi 2023** | **Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Marcus Hill, Pennaeth Prosiectau Cyfalaf,**<br>Llywodraeth Cymru |

## Tystiolaeth ysgrifenedig

Gellir gweld yr holl gwybodaeth ysgrifenedig ar **wefan y Pwyllgor**.